Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyhoeddi Gohebiaeth oddi wrth Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus at Andrew Selous AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder ynghylch Colegau Diogel** |
| **DYDDIAD** | **12 Mawrth 2015** |
| **GAN** | **Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus** |

Yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Chwefror ymrwymais i sicrhau y bydd yr ohebiaeth a fu rhyngof i a Gweinidogion y DU ynghylch yr egwyddorion sy’n sail i’r Rheolau Colegau Diogel arfaethedig ar gael i chi.

Yn ddiweddar rwyf wedi bod yn gohebu ar y mater hwn gydag Andrew Selous AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, ac mae’r ohebiaeth hon bellach ynghlwm, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i’r ymgynghoriad.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio’n agos â’u cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a phartneriaid allweddol i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth o ran Colegau Diogel yn adlewyrchu’n ddigonol anghenion a gofynion plant a phobl ifanc yng Nghymru y darperir ar eu cyfer yno.

Rydym yn cytuno y dylai gweithgareddau addysgol i blant a phobl ifanc yn yr ystad ddiogel gyfrannu at fynd i’r afael ag ymddygiad troseddol a helpu i’w hatal rhag troseddu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym bob amser wedi cydweithio'n agos ag asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau nad yw pobl ifanc o Gymru dan anfantais oherwydd bod cyfrifoldebau gwahanol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac yn benodol y systemau gwahanol sy'n bodoli o ran y cwricwlwm a chymwysterau.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd datblygu ffordd benodol o ddiwallu anghenion menywod ifanc a gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau penodol ar gyfer Coleg Diogel yng Nghymru.